**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 5 Mawrth 2020 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd D Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd S Pickering
Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd A Roberts

### 187 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto, D. Grehan, G. Hughes a S. Powderhill.

### 188 DATGANIAD BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees fuddiant personol yn Eitem 6: Cais 19/0660/10 - Defnyddio tir ar gyfer gweithgareddau cyflymder isel, nad ydyn nhw'n gystadleuol, fel profi cerbydau, hyfforddiant gyrwyr/beicwyr, profiadau i gwsmeriaid, gweithgareddau hyrwyddo, diwrnodau lansio cynnyrch, ffilmio a ffotograffiaeth ac ati o ran beiciau modur a cheir. "Mae'r ymgeiswyr yn gwneud cyfraniad at grŵp Ffrindiau Parc Aberdâr y rwy'n aelod ohono."

### 189 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i

hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**190 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**191 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 yn rhai cywir.

**192 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**193 CAIS RHIF: 19/0829**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i ystyried yr effaith negyddol bosibl y gallai'r datblygiad ei chael ar y gymuned leol a phroblemau ar y priffyrdd mewn perthynas â pharcio.

**194 CAIS RHIF: 19/1214**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Roberts, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio yr adroddiad i'r pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, roedd yr aelodau o blaid cymeradwyo'r cais uchod yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu gan eu bod o'r farn bod y newid i faint yr estyniad y gwnaed cais amdano yn dderbyniol. Nododd yr aelodau hefyd nad oedd y cymdogion wedi gwrthwynebu'r cais. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**195 CAIS RHIF: 19/0660**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Simon Thrussel (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r

Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas, nad yw'n aelod o'r pwyllgor, am y cais ac amlygodd bryderon ynglŷn â llygredd sŵn, cyfyngiadau cyflymder a mynediad i'r ffordd, gan ofyn i'r pwyllgor ystyried llwybr mynediad amgen.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio yr adroddiad i'r pwyllgor a nododd bryderon yr aelod lleol ynghylch mynediad i'r ffordd. Rhoddodd Pennaeth Materion Cynllunio wybod i'r Aelodau nad oedd adran y Priffyrdd wedi gwrthwynebu'r cais oherwydd bod Gorchymyn Rheoli Traffig a gwelliannau o ran gweledaedd yn eu lle.

Nododd yr aelodau yr hwb posibl i dwristiaeth a allai ddod yn sgil y cais, ac er bod rhai wedi lleisio pryderon ynglŷn â gorfodi cyfyngiadau cyflymder, roedd yr Aelodau o'r farn fod cais yn un cyfrifol ac o fudd i'r ardal.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**196 CAIS RHIF: 19/1272**

Yn unol â'r gweithdrefnau mabwysiedig, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol. Cafodd bob un bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms Dassy Jones (Ymgeisydd)
- Mrs Trudy Aspinwall (Cefnogwr)
- Mr Henry Mochan (Cefnogwr)
- Mr Peter Baines (Cefnogwr)

Siaradodd yr Aelodau lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Thomas a K. Morgan, nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan nodi eu gwrthwynebiad yn seiliedig ar bryderon ynghylch diogelwch ar y priffyrdd a phroblemau mynediad.

Amlinellodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys un llythyr 'hwyr' oddi wrth Gyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn a oedd yn amlygu pryderon ynghylch diogelwch ar y priffyrdd.

Parhaodd Pennaeth Materion Cynllunio trwy gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor ac amlinellu cefndir y cais.

Roedd yr Aelodau'n cydymdeimlo â'r sefyllfa a amlinellwyd gan y siaradwyr cyhoeddus ond fe nodon nhw brofiadau personol mewn perthynas â diogelwch ar y ffordd yn yr ardal gan amlygu pryderon am y problemau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ynglŷn â'r priffyrdd.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod cais yn unol ag

argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**197 CAIS RHIF: 20/0006**

Yn unol â'r gweithdrefnau mabwysiedig, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol.Cafodd bob un bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Randell (Ymgeisydd)
- Ashley Rees (Cefnogwr)
- Mrs Williams (Gwrthwynebydd)

(**NODWCH:** Gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams, sy'n aelod o'r Pwyllgor, y cyfarfod ar y pwynt hwn.)

Arferodd Mr Randell (Ymgeisydd) ei hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, gan fynegi ei chefnogaeth i'r cais ac awgrymodd y byddai'n fuddiol i'r Aelodau ymgymryd ag Ymweliad Safle cyn dod i benderfyniad ar y cais hwn.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor a chafodd yr aelodau wybod bod ceisiadau o natur debyg wedi'u gwrthod yn yr ardal yn ddiweddar.

Trafododd yr aelodau fanteision cynnal ymweliad safle i ystyried y cais hwn i ddeall daearyddiaeth yr ardal.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gohirio'r Cais er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle i gael dealltwriaeth glir o safle a lleoliad y datblygiad arfaethedig a'r rhesymau dros wrthod ceisiadau blaenorol cyn trafod y cais cyfredol.

**198 CAIS RHIF: 18/1384**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai angen mynediad i Stryd Meirion i gyflawni'r cais yma, gan fod pryder y gallai hyn achosi problemau i drigolion lleol. Eglurodd Swyddog y Priffyrdd fod y cynlluniau'n dangos ei fod yn annhebygol y byddai angen mynediad trwy Stryd Meirion gan fod y gyffordd wedi'i lleoli ger Ffordd Osgoi Aberdâr.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**199 CAIS RHIF: 19/0973**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y

Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**200 CAIS RHIF: 19/1223**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo/gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**201 CAIS RHIF: 20/0046**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth i'r cais.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**202 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 27/01/2020 hyd at 21/02/2020.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**